# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 09-10 : Cofnodion

**Dyddiad: Dydd Mawrth 29 Mehefin 2010**
**Amser: 09.42 - 10.12**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

Christine Chapman AC, Cwm Cynon (Cadeirydd)
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Janet Ryder AC, Gogledd Cymru

### Swyddogion

Naomi Stocks, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

Dechreuodd y Pwyllgor am 09.30 ond daeth i ben gan ei fod heb gworwm gyda dim ond dau Aelod yn bresennol. Ail-ddechreuodd y cyfarfod gyda chworwm am 09.42.

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike German a Bethan Jenkins. Roedd Janet Ryder yn dirprwyo ar ran Bethan Jenkins.

### 2. Deisebau newydd

1. P-03-291 Datblygu Gwasanaethau Gwybodaeth am HIV ac Iechyd Rhywiol

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Cam i’w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i :

Aros am yr ymateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i ofyn ei farn am y ddeiseb ac i ofyn am wybodaeth am y canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i ysgolion.

2. P-03-294 Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Cam i’w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am yr ymateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn gofyn barn y Pwyllgor am y ddeiseb, ac yn gofyn am fanylion ynghylch eu gwaith ar gyllidebu ar gyfer y rhywiau.

3. P-03-295 Gwasanaethau Niwroadsefydlu

Bu’r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

### Cam i’w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Aros am yr ymateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### 3. Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch deisebau blaenorol

4. P-03-099 Llwybr ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth am y meini prawf ar gyfer dewis prosiectau.

5. P-03-134 System Anrhydeddau i Gymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Prif Weinidog yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut y caiff digwyddiadau Cydnabod Llwyddiant gyhoeddusrwydd a sut y caiff unigolion eu henwebu.

6. P-03-143 Ysgol Penmaes

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Gynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn:

Am fanylion canlyniad yr adolygiad o gymorthdaliadau i'r diwydiant bysiau;

Am fanylion gwelliannau a nodwyd gan y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Powys;

Am y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect peilot a gynhaliwyd yn Sir Gaerfyrddin am wasanaeth cludiant ymateb yn ôl y gofyn newydd. Manylion ynghylch sut y bydd cyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn gwella cludiant cyhoeddus yn y Gymru wledig.

7. P-03-216 Triniaeth IVF

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i :

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am ragor o fanylion am weithredu'r polisi IVF ac yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethu cleifion sy'n aros am gael eu hail-asesu ynghyd â chadarnhad am yr amser aros hwyaf.

8. P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am gopi o'r adroddiad ar ddarpariaeth gofal traed cymdeithasol pan fo wedi'i gwblhau ac yn gofyn fod y deisebwyr yn cael eu cynnwys mewn ymgynghoriad;

Ysgrifennu at y deisebwyr i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad sydd i'w gynnal yn fuan ac yn eu hysbysu bod y Pwyllgor wedi gofyn eu bod yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad;

Ysgrifennu at Age Concern Cymru yn gofyn eu barn am y ddeiseb; a

Ysgrifennu at Diabetes UK Cymru yn gofyn eu barn am y ddeiseb.

9. P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Adolygu'r ddeiseb yng ngoleuni datganiad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater yn y Cyfarfod Llawn.

10. P-03-236 Y Siarter i Wyrion a Wyresau

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn gofyn am eglurhad ar:

Sut mae rhaglen y glymblaid yn cysylltu â'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol;

Pryd y disgwylir y bydd yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn cyflwyno eu hadroddiad; and

A oes gan y llywodraeth gynlluniau i weithredu bwriad y weinyddiaeth flaenorol i dynnu'r gofyniad fod teidiau a neiniau yn cael caniatâd y llys cyn gwneud cais am orchymyn cyswllt.

11. P-03-238 Llygredd ym mornant Porth Tywyn / P-03-241 Llanelli Star - Achubwch ein carthffosydd

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor:

I ofyn am farn y deisebydd ar ganfyddiadau ymchwiliad Marwoldeb y Cocos ac i ofyn a yw'r gwaith sy'n cael ei wneud yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn y ddeiseb. .

12. P-03-247 Achubwch Gartref Hedd Wyn

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor:

I ysgrifennu at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn gofyn am fanylion ynghylch pa mor ddrwg a oedd cyflwr yr adeilad.

13. P-03-254 Sylwadau trydydd parti mewn cyfarfodydd Cynllunio

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Pwyllgor Cynaliadwyedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r ddeiseb yng nghyd-destun eu hymchwiliad i Gynllunio yng Nghymru.

14. P-03-268 Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Aneurin Bevan

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Ysbyty Aneurin Bevan i roi gwybod iddynt am farn deisebwyr, ac i ofyn a fyddent yn ystyried adleoli gwasanaethau Meddygon Teulu tu allan i oriau ar gyfer Blaenau Gwent i Ysbyty Aneurin Bevan.

15. P-03-271 Ardrethi Busnes Arberth/P-03-286 Ardrethi Busnes Ceredigion

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Cam i'w gymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gofyn am gopi o'r astudiaeth i effeithiolrwydd rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach pan gyhoeddir hi;

16. P-03-274 Cynllun Sgrapio Boeleri

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y deisebydd yn rhoi gwybod iddynt am hynt y ddeiseb ac yn nodi bwriad y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yn yr hydref pe na bai ymateb wedi'i dderbyn gan y deisebydd.

17. P-03-285 Difa Moch Daear

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ail-edrych ar y ddeiseb pan fydd yn gwybod canlyniad yr apêl farnwrol.

18. P-03-290 Pwerdy Dowlais

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

### Cam i'w gymryd

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y gwaith a wnaed mewn perthynas â Phwerdy Dowlais, ac yn gofyn am amserlen ddangosol ar gyfer y gwaith, yn cynnwys manylion pryd y gellid disgwyl penderfyniad terfynol.

Ysgrifennu at y deisebwyr yn nodi'r materion a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhai sy'n achosi oedi.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2010**